Wales Office
Swyddfa Cymru

**Guto Bebb AS**
Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol Cymru

Gwydyr House
London, SW1A 2NP

Tŷ Gwydyr
Llundain, SW1A 2NP

1 Caspian Point
Cardiff Bay, CF10 4DQ

1 Pwynt Caspian
Bae Caerdydd, CF10 4DQ

www.walesoffice.gov.uk

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

9 Medi 2016

Annwyl Meri

**Mesur Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 25 Awst ar ôl ein cyfarfod buddiol y diwrnod cynt.

Gallaf gadarnhau na fyddai Mesur Cymru yn effeithio ar Fesur y Gymraeg 2011 na'r rheoliadau a wneir o dan y Mesur hwnnw. Mae Paragraff 5 o Atodlen 6 y Mesur yn nodi'n glir na fyddai'r Mesur yn effeithio ar weithrediad parhaus y Mesurau.

Nid yw Mesur Cymru yn ôl-weithredol; bydd yn berthnasol i Filiau'r Cynulliad yn y dyfodol ac i'r is-ddeddfwriaeth a wneir oddi tanynt. Felly ni fyddai angen caniatâd Gweinidog Llywodraeth y DU ar gyfer rheoliadau sy'n deillio o Fesur 2011 sy'n ymwneud ag awdurdodau a gadwyd yn ôl (heblaw am Weinidogion y Goron).

Pan fydd Mesur Cymru wedi dod i rym, fe fydd angen caniatâd Gweinidogion y DU i gynnwys darpariaethau ym Miliau'r Cynulliad sy'n ymwneud ag awdurdodau a gadwyd yn ôl.

Mae'n bosib eich bod yn ymwybodol fod Plaid Cymru wedi cyflwyno gwelliant cysylltiedig i'w drafod yn ystod cam Adrodd Mesur Cymru i Dŷ'r Cyffredin ddydd Llun. Edrychaf ymlaen at egluro'r sefyllfa wrth ymateb i'r gwelliant hwnnw.

Yn gywir

Guto Bebb

**Guto Bebb AS**
**Is-ysgrifennydd Seneddol Cymru**